# ADRODDIAD I'R CYFARFOD LLAWN AR DREFNIADAU'R CYNULLIAD I HYRWYDDO CYFLE CYFARTAL 2001 - 2002

**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| **RHAGAIR Y CADEIRYDD** | 2 |
| Adroddiad i'r Cyfarfod Llawn ar Drefniadau'r Cynulliad i Hyrwyddo Cyfle Cyfartal | 3 |
| **Blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf** | 3 |
| **Atodiad A: Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal** | 5 |
| CEFNDIR Y PWYLLGOR | 5 |
| CRYNODEB O'I WEITHGAREDDAU DROS Y FLWYDDYN DDIWETHAF | 5 |
| CYRFF CYHOEDDUS SYDD YNGHLWM Â HYRWYDDO CYFLE CYFARTAL | 8 |
| EDRYCH TUA'R DYFODOL | 9 |
| Atodiad A1: Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal - Cylch Gwaith | 11 |
| Atodiad A2 - Aelodaeth y Pwyllgor | 13 |
| Atodiad A3: Cyfarfodydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal | 14 |
| **ATODIAD B: ADRODDIAD YR YSGRIFENNYDD PARHAOL AR Y GWAITH I HYRWYDDO CYDRADDOLDEB YNG NGWAITH STAFF Y CYNULLIAD - EBRILL 2001 TAN FIS MAWTH 2002** | 17 |
| Cyflwyniad | 17 |
| Yr hyn a gyflawnwyd | 17 |
| Crynodeb | 19 |
| Atodiad B1: Rôl, Swyddogaethau a Gwaith yr Uned Polisi Cydraddoldeb | 21 |
| Atodiad B2: Mentrau Cydraddoldeb Penodol ar gyfer Is-adrannau | 31 |
| Atodiad B3: Proffilau Aeddfedrwydd | 110 |
| **Atodiad C: Report from the Clerk to the Assembly on the Promotion of Equality of Opportunity in the Conduct of Business Adroddiad gan Clerc y Cynulliad** | |
| Cyflwyniad | 112 |
| Gweithgaredd I hyrwyddio Cyfle Cyfartal | 112 |
| Gwaith y Pwyllgorau | 115 |
| Mentrau Personol yn Swyddfa'r Llywydd | 115 |

**RHAGAIR Y CADEIRYDD**

Un elfen hanfodol o'r weledigaeth ar gyfer llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru oedd y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol hyrwyddo cyfle cyfartal ar gyfer pawb. Adlewyrchir hyn yn Neddf Llywodraeth Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad arfer yr egwyddor y dylid rhoi cyfle cyfartal i bawb wrth gyflawni ei swyddogaethau ac wrth gynnal ei fusnes. Er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd, mae'r Rheolau Sefydlog yn gorchymyn creu Pwyllgor Cyfle Cyfartal er mwyn archwilio'r camau a gymerwyd tuag at gyflawni'r nod hwnnw. Mae'r gofyniad cyfreithiol hwn, ynghyd â'r ffaith bod un o bwyllgorau sefydlog y Cynulliad yn rhoi sylw i'r mater, wedi golygu bod y Cynulliad yn rhoi mwy fyth o sylw i'r angen am hyrwyddo cyfle cyfartal. Mae'r Cabinet, yr holl bleidiau gwleidyddol a'r uwch reolwyr wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod cyfle cyfartal yn cael ei hyrwyddo o fewn Cymru. Credaf ein bod wedi cael dechrau da ond mae llawer eto i'w wneud i oresgyn y rhwystrau i gyfle cyfartal, o fewn y Cynulliad ei hun ac yn y gymuned ehangach.

Rydym wedi cymryd camau breision mewn nifer o feysydd. Rydym wedi adeiladu ar y gwaith a ddechreuwyd y flwyddyn diwethaf o hyrwyddo cyfle cyfartal trwy'r system benodiadau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd hyn yn sicrhau bod ein cyrff cyhoeddus yn cynrychioli pob sector o'r gymuned yn well. O ganlyniad, mae gennym bellach God Ymarfer drafft ar Benodiadau Cyhoeddus ac mae cynllun gweithredu ar waith.

Mae'r adolygiad o gyflogau cadeiryddion ac aelodau cyrff o'r fath wedi'i gwblhau a'r gobaith yw y bydd hyn yn sicrhau y bydd y swyddi pwysig hyn yn denu ymgeiswyr o safon uchel o bob rhan o'r gymuned a bod y cyflogau'n rhesymegol ac yn deg.

Mae'r pwyllgor wedi cymryd diddordeb brwd yn y gwaith o weithredu adroddiad Roger McKenzie "Codi Pob Llais". Mae mwyafrif yr argymhellion wedi'u rhoi ar waith ac mae proses ymgynghori yn mynd rhagddi gyda staff y Cynulliad ynghylch y Strategaeth Recriwtio a Lleoli. Cyflwynwyd cod ymarfer gwirfoddol er mwyn sicrhau bod polisi caffael y Cynulliad yn hyrwyddo cyfle cyfartal.

Mae'r Cynulliad wedi cynnal adolygiad o gyflogau ac mae wedi cyflwyno system gyflogau sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cyflog rhwng dynion a menywod ymysg ei staff. Lansiwyd yr Ymgyrch Cyflog Cyfartal ar 7 Mawrth 2002. Dros y 12 mis nesaf bydd y Cynulliad, ar y cyd â'i bartneriaid, y Comisiwn Cyfle Cyfartal a TUC Cymru, yn annog cyflogwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat i ganfod anghydraddoldebau mewn cyflogau a mynd i'r afael â hwy.

Er bod llawer eto i'w wneud, mae'r adroddiad hwn yn dangos bod camau cadarnhaol yn cael eu cymryd. Hwylusir hyn yn fawr gan agwedd amhleidiol aelodau'r pwyllgor wrth gyflawni eu gwaith. Mae'r pwyllgor wedi canolbwyntio ar gyflawni dros y Cynulliad a thros bobl Cymru yn hytrach nag ennill pwyntiau gwleidyddol. Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar i'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, y Comisiwn Cyfle Cyfartal a'r Comisiwn Hawliau Anabledd am eu cymorth. Bu eu cyngor arbenigol i'r pwyllgor yn amhrisiadwy. Hoffai'r pwyllgor ddiolch hefyd i'r nifer fawr o bobl a

ddaeth i siarad ag aelodau'r pwyllgor ac a rannodd eu syniadau â hwy ac i swyddogion y Cynulliad sydd wedi cynorthwyo'r pwyllgor yn ei waith.

**Carwyn Jones AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal**
**Mehefin 2002**

1. Dyma drydydd adroddiad blynyddol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal o dan Reol Sefydlog 14.2 ar drefniadau'r Cynulliad ar gyfer hyrwyddo cyfle cyfartal ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny. Gwelir mwyafrif cynnwys yr adroddiad yn y tri atodiad; yn Atodiad A ceir adroddiad y pwyllgor ar ei weithgareddau dros y flwyddyn diwethaf; yn Atodiad B ceir adroddiad gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar hyrwyddo cydraddoldeb yng ngwaith staff y Cynulliad ac yn Atodiad C ceir adroddiad gan Glerc y Cynulliad ar sut y caiff cyfle cyfartal ei hyrwyddo ym musnes y Cynulliad.

2. Mae'r pwyllgor yn falch o weld y datblygiadau cyson yn yr agenda cyfle cyfartal. Bu arweiniad uwch-reolwyr y Cynulliad yn ffactor allweddol yn hyn o beth. Mae gan y pwyllgor rai pryderon, er hynny, nad yw'r ymrwymiad hwn yn cael ei adlewyrchu'n gyson ar bob lefel o fewn y Cynulliad ac, o'r herwydd, mae'n croesawu'r Strategaeth Hyfforddi Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb a'r rhaglen orfodol i godi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ymhlith holl staff y Cynulliad.

3. Cafwyd datblygiadau arwyddocaol mewn nifer o feysydd. Mae mwyafrif yr argymhellion yn adroddiad McKenzie "Codi Pob Llais" wedi'u gweithredu erbyn hyn. Cyflwynwyd trefniadau cyflog newydd ar gyfer staff y Cynulliad er mwyn mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb cyflog rhwng dynion a menywod. Lansiwyd yr Ymgyrch Cyflog Cyfartal a datblygwyd Cynllun Cydraddoldeb Hiliol er mwyn cwrdd â chyfrifoldebau'r Cynulliad o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000.

4. Mae angen gwelliannau pellach mewn rhai meysydd eraill. Mae'r pwyllgor yn bryderus ynghylch nifer isel y cyfarwyddwyr anweithredol Cymraeg eu hiaith sydd ar fyrddau'r awdurdodau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Bydd hefyd yn parhau i fonitro'r driniaeth y mae ceiswyr lloches yn ei dderbyn yng Nghymru er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu a'u hawliau'n cael eu gwarchod.

5. Mae'r pwyllgor yn croesawu'r manylion a ddarparodd is-adrannau'r Cynulliad ar fentrau cydraddoldeb penodol. Nodir y rhain yn atodlen B2. Ceir llawer o wybodaeth ddefnyddiol yn yr atodlen ond mae'r pwyllgor yn gobeithio y caiff diwyg cyffredin ei fabwysiadu ar gyfer adroddiad y flwyddyn nesaf.

6. Mae'r proffil aeddfedrwydd yn Atodlen B3 i Atodiad A yn dangos bod y Cynulliad yn parhau i gymryd camau i sefydlu mecanweithiau a gweithdrefnau ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb ond nad yw eto wedi cyrraedd y sefyllfa o arfer yr egwyddor o sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer pawb. Mae'n bwysig bod y mentrau a ddatblygwyd hyd yn hyn yn cael eu gweithredu'n gywir a bod ffactorau eraill sy'n rhwystro cydraddoldeb yn cael eu darganfod a'u goresgyn er mwyn sicrhau bod y Cynulliad yn symud at y model rhagoriaeth y mae'n amcanu ato ac sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru.

**Blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf**

7. Mae llawer o waith i'w wneud eto ar “Codi Pob Llais” yn ystod y blynyddoedd nesaf er mwyn sicrhau nad yw polisïau mewnol y Cynulliad yn cyfyngu ar y

cyfleoedd sydd ar gael i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig – neu bobl o grwpiau eraill a dangynrychiolir.

8.  Mae Sipsiwn Crwydrol ymysg y grwpiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r pwyllgor yn cynnal adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer Sipsiwn Crwydrol yng Nghymru a bwriada gyhoeddi adroddiad cyn etholiadau'r Cynulliad fis Mai nesaf. Dyma fydd un o'r prif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

9.  Cyhoeddodd y Cynulliad ei gynllun cydraddoldeb hiliol cyntaf ar 30 Mai er mwyn cwrdd â'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000. Mae'r cynllun hwn yn adeiladu ar yr amrywiaeth eang o fentrau cyfle cyfartal a gyflwynwyd gyda chefnogaeth y pwyllgor.  Caiff y cynllun ei adolygu ymhen 12 mis yn dilyn ymgynghoriad llawn gyda chymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Bydd y pwyllgor yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn ystyried cynlluniau cydraddoldeb hiliol y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.

10.  Lansiwyd yr Ymgyrch Cyflog Cyfartal ar 7 Mawrth. Bydd yr Ymgyrch, sy'n bartneriaeth rhwng y Comisiwn Cyfle Cyfartal, TUC Cymru a'r Cynulliad, yn chwarae rhan bwysig o ran annog cyflogwyr yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus i gynnal adolygiadau cyflog fel y gellir darganfod unrhyw anghydraddoldebau cyflog a chael gwared â hwy. Mae'r Cynulliad eisoes wedi rhoi arweiniad yn hyn o beth trwy fynd i'r afael ag anghydraddolebau tâl ymysg ei staff ei hun a bydd yn gofyn i'r cyrff cyhoeddus y mae'n eu cyllido i ddilyn ei esiampl.

11.  Mae'r pwyllgor hefyd yn croesawu'r gwaith y mae'r Cynulliad yn ei wneud i hyrwyddo cydraddoldeb trwy ei bolisïau ar benodiadau cyhoeddus, a chyflogau yn y maes, a thrwy gynnwys materion cydraddoldeb yn ei bolisïau caffael. Bydd yn parhau i fonitro datblygiadau yn y maes hwn.

## ATODIAD A: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL

## CEFNDIR Y PWYLLGOR

1.  Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal archwilio trefniadau'r Cynulliad i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb wrth arfer ei swyddogaethau a'r modd y mae'n cynnal ei fusnes. Mae adran 48 a 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad sicrhau bod cyfle cyfartal i bawb.

2. Nodir manylion cylch gwaith y Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 14 (Atodiad A1). Ceir rhestr o aelodau'r pwyllgor yn Atodiad A2.  Ceir crynodeb o agendâu y Pwyllgor yn ystod 2001-02 yn Atodiad A3.

3.  Un o ddiddordebau'r Pwyllgor yw sicrhau bod cyfathrebu cyson rhwng y sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau lleiafrifol a than anfantais a phob lefel yn y Cynulliad.  Er mwyn helpu i sicrhau hyn, cytunodd yr aelodau yn ei gyfarfod cyntaf y

dylid gwahodd y comisiynau a sefydlwyd i fynd i'r afael â chydraddoldeb yng Nghymru - Y Comisiwn Cyfle Cyfartal, Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ac Anabledd Cymru (sef y Comisiwn Hawliau Anabledd bellach) - i gyfarfodydd y Pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog 14.4.

4. Mae Rheol Sefydlog 14 yn disgwyl bod y pwyllgor yn rhoi sylw arbennig i'r angen i'r Cynulliad osgoi gwahaniaethu ar sail rhyw, hil neu anabledd. Tra'n cynnal y ffocws yma, mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried mathau eraill o wahaniaethu ac allgáu cymdeithasol gan gynnwys oed, crefydd a rhywioldeb.

5. Mae'r Pwyllgor wedi mynd ati mewn nifer o ffyrdd i archwilio'r modd y mae'r Cynulliad yn cyflawni ei ddyletswydd i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb. Yn ogystal â'r adroddiad blynyddol, mae hyn yn cynnwys codi nifer o faterion sydd o ddiddordeb ac sy'n peri pryder i'r Pwyllgor gyda'r Gweinidog perthnasol, yr Ysgrifennydd Parhaol neu adran bolisi; comisiynu adroddiadau ar faterion penodol; derbyn sylwadau a chyflwyniadau gan sefydliadau o'r tu allan i'r Cynulliad a chadw mewn cysylltiad â'r comisiynau cydraddoldeb. Mae swyddogion o Uned Polisi Cydraddoldeb y Cynulliad a'r Uned Penodiadau Cyhoeddus hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd pwyllgor i roi cymorth a chyngor ac i ymateb i faterion sy'n codi.

## CRYNODEB O'I WEITHGAREDDAU DROS Y FLWYDDYN DDIWETHAF

### Penodiadau Cyhoeddus

6. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried yn ddwys y prosesau sy'n arwain at benodiadau cyhoeddus er mwyn sicrhau bod mwy o gynrychiolaeth o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, pobl ag anabledd a menywod.

Ym mis Mawrth, bu'r Pwyllgor yn ystyried Cod Ymarfer drafft ar Benodiadau Cyhoeddus sy'n dod â darpariaethau Cod Ymarfer y Comisiynydd dros Benodiadau Cyhoeddus (diwygiwyd yn 2001) a Chod Ymarfer presennol y Cynulliad ar Benodiadau Cyhoeddus ynghyd.
Mae'r Pwyllgor hefyd wedi mynegi diddordeb yng nghynllun gweithredu "Gwneud Cydraddoldeb yn Rhan o'r Brif-Ffrwd wrth wneud Penodiadau Cyhoeddus" a ddraftiwyd o dan oruchwyliaeth yr Athro Teresa Rees.

7. Bu hefyd diddordeb gan y Pwyllgor yn yr adolygiad o dâl a chostau penodedigion cyhoeddus a oedd yn anelu at wneud eu tâl yn fwy cyson a sicrhau nad oedd trefniadau talu yn rhwystr i amrywiaeth. Ym mis Ionawr, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad drafft terfynol yr adolygiad a chododd rai pryderon a gafodd eu pasio i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd y Pwyllgor yn monitro canlyniadau'r adolygiad.

### Cyflog Cyfartal

8. Cyhoeddwyd adroddiad Tasglu'r Comisiwn Cyfle Cyfartal, *Just Pay* ddechrau 2001 ac roedd yn tynnu sylw at y ffaith bod y bwlch rhwng cyflogau dynion a menywod wedi aros ar lefel annerbyniol o uchel.

9. Ym mis Gorffennaf, cyfarfu grwp cyfeirio anffurfiol, o dan gadeiryddiaeth David Melding, i oruchwylio datblygiad ymgyrch ar Gyflog Cyfartal gan y Cynulliad, y Comisiwn Cyfle Cyfartal a Chyngor Undebau Llafur Cymru. Lansiwyd yr ymgyrch

yn ffurfiol ar 7 Mawrth yng Nghaerdydd, Abertawe a Llandudno. Bydd arddangosfeydd yn teithio o gwmpas Cymru yn codi ymwybyddiaeth pobl o gyflog cyfartal. Mae CD-ROM yn cael ei baratoi i gefnogi'r ymgyrch a chaiff ei lansio yn Wythnos Busnes Cymru ym mis Mai. Bydd cyfres o seminarau sector cyhoeddus yn dilyn hyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

10. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i ennyn diddordeb y sector preifat yn y mater hwn a bydd yn parhau i fonitro effaith yr ymgyrch.

**Y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio)**

11. Daeth y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 i rym ym mis Ebrill 2001 a rhoddodd ddyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus i gael gwared ar wahaniaethu hiliol. Mae hefyd yn rhoi pwer i'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol i ddraftio codau ymarfer ar gyfer unrhyw grwp o bobl a enwir yn y Ddeddf ac, ar ôl ymgynghori a chael cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, i osod y codau hynny gerbron y Senedd a'u gorfodi gan y Comisiwn.

12. Nododd y Pwyllgor y bydd y dyletswyddau statudol sy'n cael eu gorfodi ar gyrff cyhoeddus gan y Ddeddf yn cael effaith arwyddocaol ar hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Er mwyn cyflawni'i rwymedigaethau, mae'r Cynulliad wedi paratoi Cynllun Cydraddoldeb Hiliol a bu'r pwyllgor yn ei ystyried ym mis Mai.

**Adroddiad McKenzie**

13. Croesawodd y Pwyllgor adroddiad gan Roger McKenzie, *Codi Pob Llais: Adroddiad a Chynllun Gweithredu i fynd i'r afael â hiliaeth sefydliadol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru* fel ffordd ymlaen. Mae'n annog y Cynulliad a'r pleidiau gwleidyddol yng Nghymru i roi'r argymhellion yn yr adroddiad ar waith. Ym mis Ionawr, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar hynt y cynllun gweithredu ar roi'r argymhellion yn adroddiad Codi Pob Llais ar waith. Bydd y Pwyllgor yn parhau i gymryd diddordeb yn hynt yr adroddiad ac mae'n edrych ymlaen at dderbyn yr adroddiad ar ganlyniadau'r ymgynghoriad gyda staff y Cynulliad.

**Polisi Caffael**

14. Mae dyletswydd ar y Cynulliad i sicrhau bod y rheini sydd ar gytundeb i ddarparu gwasanaethau iddo yn gwneud hynny mewn modd sy'n hybu cyfle cyfartal. Hefyd, mae pwer arwyddocaol ganddo o fewn y farchnad yng Nghymru fel defnyddiwr nwyddau a gwasanaethau. Mae'r Pwyllgor am weld y Cynulliad yn cyflawni'r ddyletswydd hon ac yn defnyddio'i bwer i hybu cyfle cyfartal.

15. Mae cynnydd wedi bod yn y maes hwn ac mae Cod Ymarfer Gwirfoddol, y gwahoddir cyflenwyr i'w ddilyn, wedi cael ei ddatblygu gan yr Uned Gaffael. Y nod yw creu cronfa ddata o gyflenwyr sydd yn barod i gefnogi gwerthoedd y Cynulliad ar Gyfle Cyfartal, Datblygu Cynaliadwy a Cynhwysiant Cymdeithasol. Mae'r Grwp Cyllid hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o ehangu'r polisi i gynnwys derbynwyr grantiau dewisol. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro datblygiad y polisïau caffael.

**Mynediad i orsafoedd pleidleisio**

16.  Roedd adroddiad "Polls Apart 2" a baratowyd ar gyfer y Comisiwn Hawliau Anabledd gan Scope yn nodi nad oedd pobl anabl yn gallu cael mynediad i 69% o orsafoedd pleidleisio yng Nghymru. Cyfarfu'r Pwyllgor â'r Comisiwn ar Drefniadau Etholiadau Llywodraeth Leol, y Comisiwn Etholiadol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i drafod ffyrdd o wella mynediad pobl anabl i orsafoedd pleidleisio. Bu hefyd yn ystyried y cynllunio oedd ar y gweill ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn 2003. Bydd y Pwyllgor yn ystyried y mater eto yn yr hydref.

**Ceiswyr Lloches yng Nghymru**

17.  Yn dilyn pryderon am y modd y mae ceiswyr lloches yn cael eu trin yng Nghymru mae'r Pwyllgor wedi penderfynu ymchwilio i'r mater. Er nad yw lloches yn fater sydd wedi'i ddiprwyo, mae'n cyffwrdd â meysydd y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt, megis y gwasanaethau iechyd. Ym mis Gorffennaf, derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth gan nifer o sefydliadau sy'n cynrychioli lles ceiswyr lloches ac yn darparu gwasanaethau iddynt, gan gynnwys awdurdodau lleol.  Teimlodd y Pwyllgor y byddai'n well bod ceiswyr lloches yn cael eu hintegreiddio i'r gymuned yn hytrach na sefydlu canolfannau preswyl iddynt. Roedd y pwyllgor hefyd yn pryderu am yr anawsterau a nodwyd gyda'r system dalebau a'r arfer o gadw ceiswyr lloches yng Ngharchar Caerdydd. Cododd y Cadeirydd y mater gyda'r Arglwydd Rooker, y Gweinidog sy'n gyfrifol am loches yn y Swyddfa Cartref.

18.  Ym mis Tachwedd bu'r pwyllgor yn trafod materion lloches gyda Chyfarwyddwyr y Gwasanaeth Cynorthwyo Ceiswyr Lloches Cenedlaethol.  Ym mis Chwefror 2002, cyhoeddodd y Swyddfa Cartref y Papur Gwyn 'Secure Borders Safe Haven: Integration with Diversity in modern Britain' a oedd yn amlinellu'r newidiadau i'r system lloches. Bydd y Pwyllgor yn dilyn y datblygiadau gyda diddordeb.

**Cyfarwyddebau Hil a Chyflogaeth**

19.  Bu'r Pwyllgor yn ystyried ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar roi'r Cyfarwyddebau Hil a Chyflogaeth ar waith. Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan y cyrff cydraddoldeb. Codwyd pryder am sgôp y ddeddfwriaeth arfaethedig yn enwedig y methiant i gyflwyno deddfwriaeth ynghylch nwyddau a gwasanaethau sy'n gwahaniaethu ar sail oedran, crefydd a rhywioldeb, diffyg pwerau gorfodi mewn perthynas â'r tair haen newydd hyn ac eithrio sefydliadau crefyddol. Y prif bryder oedd y byddai cynnig Llywodraeth y DU yn arwain at "hierarchiaeth hawliau" trwy fethu â rhoi'r un lefel o ddiogelwch i bawb ar draws yr haenau. Cododd y Pwyllgor y materion hyn yn ei ymateb i'r ymgynghoriad a bydd yn parhau i ddilyn hynt y Cyafrwyddebau wrth iddynt gael eu rhoi ar waith.

**Codi Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb**

20.  Croesawodd y Pwyllgor ddatblygiad Strategaeth Codi Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a staff y Cynulliad. Fe wnaeth y Pwyllgor gydnabod pwysigrwydd gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith Aelodau'r Cynulliad. Ysgrifennodd y Cadeirydd at reolwyr busnes y pleidiau yn gofyn iddynt benodi yn unig aelodau sydd wedi derbyn hyfforddiant cydraddoldeb i fod ar y byrddau dethol.  Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at dderbyn adroddiad ar sut mae'r hyfforddiant ar gyfer staff ac Aelodau yn mynd rhagddo.

**Mynediad i Adeiladau Hanesyddol**

21. Ym mis Tachwedd bu'r Gweinidog dros yr Amgylchedd a'r Pwyllgor yn trafod arweiniad drafft Cadw ar fynediad i adeiladau hanesyddol, *'Goresgyn y Rhwystrau'.* Teimlodd y pwyllgor bod cyfraniad Comisiwn Hawliau Anabledd ac Anabledd Cymru at yr arweiniad yn bwysig. Roedd angen i'r arweiniad fod yn bositif o ran tôn ac roedd angen meddwl am ffyrdd llawn dychymyg i fynd i'r afael â threfniadau mynediad. Roedd hefyd yn bwysig bod staff Cadw yn derbyn hyfforddiant ar fynediad.

**CYRFF CYHOEDDUS SYDD YNGHLWM Â HYRWYDDO CYFLE CYFARTAL**

**Comisiwn Cyfle Cyfartal**

22. Ar 14 Chwefror 2001 bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cyfle Cyfartal yn unol â Rheol Sefydlog 6.6.

23. Roedd yr adroddiad yn ymdrin â chwe thema ac yn edrych ar y sefyllfa gyfredol, achosion cyfreithiol a oedd yn berthnasol i'r thema a datblygiadau yn y dyfodol ym mhob achos. Y themâu oedd:

- cyflog cyfartal;
- cydbwysedd gwaith/bywyd;
- stereoteipio rolau merched a dynion;
- merched mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol;
- prif-ffrydio cydraddoldeb ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol; a
- fframwaith cyfreithiol i'r dyfodol.

**Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol**

24. Ar 31 Hydref 2001 bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn unol â Rheol Sefydlog 6.6.

25. Y prif fater a ddeilliodd o'r adroddiad oedd hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cynyddu nifer y penodiadau cyhoeddus o blith pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, gweithio tuag at hyrwyddo menter iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer yr henoed yng Nghymru ac archwilio gwaith yr Heddlu a'r Gwasanaeth Erlyn Troseddol i asesu'r rhesymau am y twf yn nifer y bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sydd yn y carchar. Nododd y Pwyllgor, yn dilyn Ymchwiliad Stephen Lawrence, bod pob ysgol yng Nghymru yn berchen ar gopi o strategaeth y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ar gydraddoldeb hiliol mewn ysgolion 'Learning for All'. Roedd y Comisiwn hefyd yn monitro'r gwaith o roi'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (diwygio) ar waith.

**Comisiwn Hawliau Anabledd**

26. Ar 31 Hydref 2001 bu'r pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Hawliau Anabledd yn unol â Rheol Sefydlog 6.6.

27. Y prif faterion oedd yn deillio o'r adroddiad oedd pasio Deddf Anabledd ac Anghenion Addysgol Arbennig 2001 a datblygu a drafftio dau god ymarfer i gefnogi'r broses o'i roi ar waith ac adolygu'r Cod Ymarfer ar fynediad at adnoddau a gwasanaethau cyn cyhoeddi'r rheoliadau o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

28. Sefydlodd y Comisiwn swyddfa yng Nghaerdydd a bu'n gweithio i ddiddymu gwahaniaethu ac i ddarparu gwasanaeth cefnogi i bobl Cymru. Hefyd, datblygwyd perthynas gydag Aelodau'r Cynulliad, swyddogion y Cynulliad a sefydliadau Anabledd eraill yng Nghymru, megis Anabledd Cymru er enghraifft.

**EDRYCH TUA'R DYFODOL**

29. Mae'r Pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio ar helpu'r Cynulliad a chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad i weithio tuag at roi cyfle cyfartal i bawb trwy sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb yn cael eu prif-ffrydio trwy'r Cynulliad. I fynd â'r maen i'r wal, bydd y Pwyllgor yn parhau i gynnig cyfle i Aelodau'r Cynulliad, Cabinet y Cynulliad, y comisiynau a grwpiau cydraddoldeb i drafod. Trwy hyn, bydd y pwyllgor yn canolbwyntio ar rwymedigaethau'r Cynulliad o ran cydraddoldeb, yn tynnu sylw at anghenion y grwpiau o fewn y gymuned ac yn argymell camau ar gyfer newid.

30. Yn ogystal, bydd y Pwyllgor yn hwyluso gweithredu parhaus yn y meysydd canlynol:

**Sipsiwn Crwydrol**

31. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod angen i'r Cynulliad fynd i'r afael ag anawsterau darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion Sipsiwn Crwydrol. Felly, penderfynodd gynnal adolygiad o'r gwasanaethau ar gyfer Sipsiwn Crwydrol ac ym mis Chwefror 2002, aeth ati i wahodd tystiolaeth ysgrifenedig. Bydd y Pwyllgor yn penodi ymgynghorydd arbenigol i helpu gyda'r adolygiad. Ym mis Ebrill 2002 aeth y Pwyllgor i Ddulyn i ymweld â'r Awdurdod Cydraddoldeb Gwyddelig, sefydliadau ar gyfer Teithwyr a swyddogion o Adrannau Llywodraeth Iwerddon.

32. Nod y Pwyllgor yw gorffen yr adolygiad a llunio adroddiad cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2003, er ei fod yn cyfaddef na fydd yn bosibl mynd i'r afael â phob agwedd o fewn y terfyn amser.

**Y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio)**

33. Bydd y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) yn cael effaith arwyddocaol ar hyrwyddo egwyddorion cydraddoldeb trwy orfodi dyletswyddau cyffredin a phenodol ar gyrff cyhoeddus i weithio yn erbyn gwahaniaethu ar sail hil. Fel ag a nodir uchod, bydd gan y Pwyllgor rôl i hyrwyddo'r ddeddf trwy fonitro, rhoi cyngor a chadw mewn cysylltiad â'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a sicrhau bod y Ddeddf yn gyfle i gynnig cyfle cyfartal i bawb.

**Hawliau Dynol**

34. Ym mis Hydref, bu'r Pwyllgor yn ystyried cynnig i ymestyn ei gylch gorchwyl i gynnwys hawliau dynol. Teimlodd y Pwyllgor bod perygl y gallai hyn wneud ei ffocws yn aneglur, yn enwedig gan fod Gweinidog gwahanol yn gyfrifol am faterion hawliau dynol yn y Cynulliad. Mae hawliau dynol yn golygu cydymffurfio â'r gyfraith tra bod cyfle cyfartal yn golygu mynd i'r afael â'r problemau y mae grwpiau o dan anfantias yn eu hwynebu. Nid oedd y Pwyllgor am i hyn dynnu ei sylw oddi wrth bolisïau archwilio sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, i sicrhau bod hawliau unigiolion yn cael eu cynnal, ac felly penderfynodd yn erbyn ymestyn ei gylch gorchwyl. Fodd

bynnag, yn dilyn argymhelliad Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad bydd y Pwyllgor yn edrych ar y mater unwaith eto.

**Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal**
**Mehefin 2002**

**Atodiad A1: Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal - Cylch Gwaith**

**Dyfyniad o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**

Adran 48

(1) Bydd y Cynulliad yn gwneud trefniadau priodol gyda'r bwriad o sicrhau fod ei fusnes yn cael ei reoli gyda sylw dyladwy i'r egwyddor y dylid rhoi cyfle cyfartal i bawb.

Adran 120

(1) Bydd y Cynulliad yn gwneud trefniadau priodol gyda'r bwriad o sicrhau fod ei swyddogaethau'n cael eu cyflawni gyda sylw dyladwy i'r egwyddor y dylid rhoi cyfle cyfartal i bawb.

(2) Ar ôl pob blwyddyn ariannol bydd y Cynulliad yn cyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys:
   a) Datganiad o'r trefniadau a wnaed yn unol ag is-adran (1) a oedd mewn grym yn ystod y flwyddyn ariannol honno; a
   b) Datganiad ynghylch pa mor effeithiol y bu'r trefniadau hynny mewn hyrwyddo cyfle cyfartal.

**RHEOL SEFYDLOG 14 – Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**

**<u>Teitl a Chylch Gwaith</u>**

14.1 Fe geir Pwyllgor Cyfle Cyfartal, a fydd yn archwilio trefniadau'r Cynulliad ar gyfer hybu, wrth gyflawni ei swyddogaethau a rheoli'i fusnes, yr egwyddor y dylid rhoi cyfle cyfartal i bawb. Bydd y Pwyllgor hefyd yn rhoi sylw arbennig i'r angen i'r Cynulliad osgoi gwahaniaethu ar sail hil, rhyw neu anabledd.

14.2 Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ar y trefniadau hynny a'u heffeithiolrwydd. Bydd hefyd yn adolygu ac yn adrodd i'r Cynulliad ei gasgliadau ynghylch yr Adroddiadau Blynyddol a gyflwynwyd i'r Cynulliad gan gyrff cyhoeddus sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal.

**<u>Aelodaeth</u>**

14.3 Bydd y Cynulliad yn ethol un o Ysgrifenyddion y Cynulliad i gadeirio'r Pwyllgor, ynghyd ag Aelodau eraill a etholir hyd y bo'n ymarferol i adlewyrchu cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad a dylid ystyried hefyd a fyddai'n ddymunol cael cynrychiolaeth o bob pwyllgor pwnc ar y Pwyllgor. Gall Aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor fynychu ei gyfarfodydd pan fyddant yn agored i'r cyhoedd. Gall unrhyw gyfryw Aelodau sydd â materion etholaethol neu ranbarthol penodol i'w trafod mewn perthynas â gwaith y Pwyllgor ofyn i'r cadeirydd cyn unrhyw gyfarfod am ganiatâd i annerch y Pwyllgor yn y cyfarfod hwnnw; ond ni fydd gan yr Aelodau hyn bleidlais. Gall Aelodau hefyd ysgrifennu at y Cadeirydd i wneud cais i'w sylwadau ar unrhyw agwedd o waith y Pwyllgor gael eu rhoi gerbron y Pwyllgor i'w hystyried yn ei gyfarfod nesaf; a bydd y cadeirydd yn trefnu i hynny ddigwydd.

14.4 Heb leihau effaith paragraff 8.14, bydd y Pwyllgor, o bryd i'w gilydd, yn penodi ymgynghorwyr yn ôl y galw fel y gall sylwadau grwpiau lleiafrifol neu grwpiau pobl dan anfantais gael eu cyflwyno iddo.

**Adroddiadau**

14.5 Gall y Pwyllgor adrodd i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd yn ogystal â chyflwyno'i adroddiad blynyddol.

**Atodiad A2: Aelodaeth y Pwyllgor Cyfle Cyfartal**

**AELODAETH Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**

Aelodau'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ym mis Ebrill 2002 oedd:

| | | |
|---|---|---|
| Edwina Hart (Cadeirydd) | Llafur | Gwyr |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Eleanor Burnham | Dem. Rhyddfrydol | Gogledd Cymru |
| Ann Jones | Llafur | Dyffryn Clwyd |
| Helen Mary Jones | Plaid Cymru | Llanelli |
| Huw Lewis | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Val Lloyd | Llafur | Dwyrain Abertawe |
| David Melding | Ceidwadwr | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Plaid Cymru | Gogledd Cymru |
| Peter Rogers | Ceidwadwr | Gogledd Cymru |
| Owen John Thomas | Plaid Cymru | Canol De Cymru |

Bu Christine Gwyther (Llafur: Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro) yn aelod tan 27 Tachwedd 2001.

Bu Richard Edwards (Llafur: Preseli Sir Benfro) yn aelod tan 12 Mehefin 2001.

Bu Jonathan Morgan (Ceidwadwr: Canol De Cymru) yn aelod tan 20 Tachwedd 2001.

## Atodiad A3: Cyfarfodydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

**9 Mai 2001 - EOC-04-01**

Adroddiad y Cadeirydd
Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor Cyfle Cyfartal
Gwaith Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru:
    Cyflwyniad: Steve Bennett, Rheolwr Project a Susheela Lourie, Cadeirydd, Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru
Ymchwiliad Stephen Lawrence
Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**13 Mehefin 2001 - EOC-05-01**

Dr Liisa Horelli - arbenigwraig o'r Ffindir, ar roi cyfle cyfartal yn y brif ffrwd
Adroddiad y Cadeirydd
Polisi Caffael y Cynulliad Cenedlaethol
Adroddiad Tasglu'r Comisiwn Cyfle Cyfartal ar Gyflogau Cyfartal: Cyflwyniad:
    Teresa Rees, Comisiynydd Cyfle Cyfartal Cymru
Y data sydd ar gael o fewn y Cynulliad Cenedlaethol:
    Cyflwyniad ar y data cydraddoldeb sydd ar gael o fewn Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Polisi Penodi'r NHS
Adroddiad Blynyddol ar Drefniadau'r Cynulliad i Hybu Cyfle Cyfartal
Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**11 Gorffennaf 2001 - EOC-06-01**

Adroddiad y Cadeirydd
Adroddiad McKenzie - Cynllun Gweithredu
Cydnabyddiaeth Penodedigion Cyhoeddus – Adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad
Cylch Gorchwyl y Gweithgor Cyflog Cyfartal
Ceiswyr Lloches yng Nghymru - casglu tystiolaeth
    Rhaglen Wasgaru ac Ailgartrefu Ceiswyr Lloches
    Rhoi'r Ceiswyr Lloches mewn Canolfannau Cadw
Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**31 Hydref 2001 EOC-07-01**

Adroddiad y Cadeirydd
Y Gweithgor ar Gyflogau Cyfartal
Y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio)
    Cyflwyniad: Jonathan Lane, Pennaeth, Yr Uned Deddfwriaeth Cysylltiadau Hiliol, Y Swyddfa Gartref
Strategaeth Hyfforddiant Cydraddoldeb
Pobl Grwydrol, Roma a Sinti
Adroddiad Blynyddol Comisiwn Hawliau Anabledd
    Cadeirydd y Comisiwn Hawliau Anabledd, Mr Bert Massi
Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
    Dr Mashuq Ally
Y diweddaraf am yr ymateb i'r Tasglu Hawliau Anabledd
Adolygiad o Weithdrefn y Cynulliad
    Cynnwys Hawliau Dynol yn nghylch gwaith y Pwyllgor

Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**28 Tachwedd 2001 EOC 08-01**

Adroddiad y Cadeirydd
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd
    Adroddiad CADW ar Fynediad Corfforol at Adeiladau Hanesyddol a materion mynediad amgylcheddol eraill
Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cyfle Cyfartal
    Cyflwyniad: Yr Athro Teresa Rees a Kate Bennett
Cyflog Cyfartal
Ceiswyr Lloches
Cyflwyniad gan Stacy Thornton, Cyfarwyddwraig y Gwasanaeth Cynorthwyo
    Ceiswyr Lloches Cenedlaethol ar wasgaru ac ailgartrefu ceiswyr lloches yng Nghymru
Sipsiwn Crwydrol
Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig: Adroddiad ar Allgáu Cymdeithasol
Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**30 Ionawr 2002 - EOC 01-02**

Adroddiad y Cadeirydd
Cynllun Gweithredu Adroddiad McKenzie
    Cyflwyniad gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn hysbysu'r Pwyllgor o ddatblygiadau diweddaraf rhoi Cynllun Gweithredu Adroddiad McKenzie ar waith.
Ymchwiliad Sipsiwn Crwydrol
    Cyflwyniad gan Brif Weithredwr yr Awdurdod Cydraddoldeb Gwyddelig, Niall Crowley
Y Diweddaraf ar y Polisi Caffael
Talu'r Rhai a Benodir i Swyddi Cyhoeddus
Cyfarwyddebau ar Hil a Chyflogaeth
    Cyflwyniad gan swyddogion yr Adran Fasnach a Diwydiant
Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**6 Mawrth 2002 - EOC 02-02**

Adroddiad y Cadeirydd
Adolygiad o’r Iaith Gymraeg
    Cyflwyniad gan Delyth Evans AC ar Adolygiad y Pwyllgor Diwylliant o'r Iaith Gymraeg
Cod Ymarfer ar Benodiadau Cyhoeddus
Y Cynllun Gweithredu Amrywiaeth
Mynediad i Orsafoedd Pleidleisio
    Cyflwyniad gan Will Bee, y Comisiwn Hawliau Anabledd ar adroddiad "Polls Apart 3"
Cyfarwyddebau Hil a Chyflogaeth
Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**24 Ebrill 2002 - EOC 03-02**

Adroddiad y Cadeirydd
Mynediad i Orsafoedd Pleidleisio

Adroddiad gan Glyn Mathias a Kay Jenkins, y Comisiwn Etholiadol a Steve Thomas, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Swyddfa'r Comisiwn Gwasanaethau Mewnfudo

Cyflwyniad gan y Comisiynydd John Scampion

Adolygiad Sipsiwn Crwydrol

Cyflwyniad gan Rachel Morris, Uned Ymchwil Cyfraith y Crwydriaid, Prifysgol Caerdydd

Yr Ymgyrch Cyflog Cyfartal

Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**ATODIAD B: ADRODDIAD YR YSGRIFENNYDD PARHAOL AR Y GWAITH I HYRWYDDO CYDRADDOLDEB YNG NGWAITH STAFF Y CYNULLIAD - EBRILL 2001 TAN FIS MAWTH 2002**


1. Cyflwyniad 18
2. Yr hyn a gyflawnwyd 18
i. Cyffredinol 18
ii. Cynllun Strategol 20
iii. Llywodraeth Well 22
3. Crynodeb 22
Atodiad B1: Rôl, Swyddogaethau a Gwaith yr Uned Polisi Cydraddoldeb 24
Atodiad B2: Mentrau Cydraddoldeb Penodol ar gyfer Is-adrannau 33
Atodiad B3: Proffilau Aeddfedrwydd 113


## 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i hyrwyddo cydraddoldeb yn y Cynulliad ers fy adroddiad ym mis Mehefin 2001. Mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng Ebrill 2001 a Mawrth 2002. Bydd Swyddfa'r Llywydd yn llunio adroddiad ar wahân ar ei gwaith hithau i hyrwyddo cyfle cyfartal.

Trwy gydol y cyfnod hwn rwyf wedi ceisio sicrhau, trwy fy ymrwymiad personol ac ymrwymiad fy staff, bod Cyfle Cyfartal yn cael ei brif-ffrydio ym mhob agwedd ar waith Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae fy arweiniad innau ac arweiniad fy uwch-reolwyr yn hanfodol i brif-ffrydio cydraddoldeb, ac rwy'n credu i'r mentrau yr aed i'r afael â hwy yn ystod y cyfnod ddangos iddynt gael yr arweiniad hwnnw. Mae'r hyn a gyflawnwyd, a amlinellir isod, a chanlyniadau'r trydydd archwiliad o gydraddoldeb, yn rhoi awgrym o hynt y newid graddol yn niwylliant y sefydliad. Bydd y newid hwn yn y diwylliant yn cymryd amser i fwrw gwreiddiau ac rwy'n cydnabod bod llawer eto i'w wneud.

## 2. Yr hyn a gyflawnwyd

Mae llawer wedi'i gyflawni yn ystod y cyfnod. Er hwylustod, rwyf wedi amlinellu'r hyn a gyflawnwyd o dan benawdau: y rheini o natur cyffredinol; y rheini sy'n berthnasol i'r Cynllun Strategol; a'r rheini sy'n berthnasol i Lywodraeth Gwell. Yn ogystal, i dynnu sylw at yr hyn a gyflawnwyd, lle bo'n briodol, rwyf wedi nodi ein amcanion am y flwyddyn sydd i ddod:

### i. Cyffredinol

Mae'r newidiadau sydd wedi'u gwneud i'n trefniadau recriwtio, ein trefniadau newydd i dalu cyflogau cyfartal i staff a'n system rheoli perfformiad newydd, yn uchel eu proffil ac yn enghreifftiau arwyddocaol o'r cynnydd sy'n cael ei wneud.

Pethau eraill a gyflawnwyd o natur cyffredinol:

- Ein gwaith i ddatblygu cynllun cydraddoldeb hiliol o ganlyniad i'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000. Yn ystod y flwyddyn y sialens fydd rhoi'r Cynllun Gweithredu sy'n deillio o'r cynllun ar waith.

- Yr hyfforddiant a gynhaliwyd i helpu Is-adrannau i ddeall materion Hawliau Dynol yn well. Yn ystod y flwyddyn i ddod, bydd hyfforddiant gloywi a hyfforddiant penodol yn cael ei gynnal ar gyfer yr Is-adrannau a'r Grwpiau sydd ei angen arnynt.

- Y mewnbwn strategol a roddodd Cymru i drafodaethau'r Llywodraeth Ganolog am oblygiadau Cyfarwyddebau Hil a Chyflogaeth Erthygl 13 Cytundeb Amsterdam. Yn ystod y flwyddyn, byddwn yn parhau i helpu'r Llywodraeth gyda'i hymgynghoriad ar y cynllun gweithredu, ac yn ei chynorthwyo i ddatblygu strategaeth a fydd yn helpu cyflogwyr i roi'r adrannau ar rywioldeb a chrefydd ar waith.

- Y gwaith parhaus o roi rhan III o'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 ar waith, i hyrwyddo mynediad at wasanaethau yng Nghymru. Mae gwaith ar y gweill i sicrhau fod pobl yn ymwybodol o ofynion rhan III ar y sector cyhoeddus. Bydd prosiect penodol yn cynnwys cynnal 5 cynhadledd ar draws Cymru i godi ymwybyddiaeth darparwyr gwasanaethau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat o'u cyfrifoldebau, ynghyd â datblygu systemau monitro i sicrhau bod gan y rhai a ariannwn y mecanweithiau priodol i sicrhau bod eu systemau darparu gwasanaethau yn cydymffurfio â'r Ddeddf.

- Cynhaliwyd digwyddiadau Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl ar hyd a lled Cymru ar gyfer pobl ifanc anabl, gan gyrraedd uchafbwynt mewn Cyfarfod Llawn yn Siambr y Cynulliad o dan gadeiryddiaeth y Llywydd. Atebodd y Prif Weinidog a'r Gweinidog dros Gyllid gwestiynau a luniwyd gan y bobl ifanc mewn gweithdai rhanbarthol cyn y prif ddigwyddiad. Gobeithiwn adeiladu ar hwn a defnyddio'r gwersi a ddysgwyd wrth gynllunio digwyddiadau ar gyfer pobl ifanc anabl yn y dyfodol.

- Dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Merched, gan gynnwys lansio gan staff Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgyrch cyflogau cyfartal trwy Gymru a chyfarfod pwysig dros frecwast. Gobeithiwn adeiladu ar hyn yn ystod y flwyddyn.

- Penodi, ar secondiad o 2 flynedd, yr Uwch Was Sifil cyntaf o Leiafrif Ethnig i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Ceir manylion pellach ar yr uchod ac ar waith a phethau eraill a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod yn Atodiadau B1 a B2.

**ii. Cynllun Strategol**

Mae hyrwyddo diwylliant sydd yn rhoi gwerth i amrywiaeth ac sy'n sicrhau cyfle cyfartal yn un o dair prif thema y Cynulliad, a byddaf yn disgwyl i holl staff y Cynulliad Cenedlaethol eu dilyn. Mae Fframwaith Strategol y Cynulliad yn nodi'r weledigaeth hirdymor ar gyfer Cymru well: cymdeithas oddefgar sy’n mynd i’r afael

ag anghenion pob grwp cymdeithasol ac sy'n rhoi cyfle i bawb chwarae ei ran lawn. Mae nifer o bolisïau a mentrau yn cael eu cyflwyno ar draws y Cynulliad er mwyn helpu cyflawni'r amcanion hyn. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys:

- Dau ymarfer recriwtio ar gyfer swyddi ym Mand A a Band F a oedd yn rhoi anogaeth benodol i grwpiau sy'n cael eu tan-gynrychioli, yn enwedig unigolion o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ymgeisio. Ar eu cyfer, cododd cyfran y ceisiadau gan bobl ddu neu o leiafrif ethnig o [X%] i 6% (roedd 4.5% o'r ceiswyr yn anabl). O'r ceiswyr a gafodd gyfweliad, roedd 7.6% yn bobl ddu neu o leiafrif ethnig a 10.4% yn anabl. O'r rheini gafodd eu hargymell ar gyfer eu penodi, roedd [X%] yn bobl ddu neu o leiafrif ethnig a [X%] yn bobl anabl.
- Datblygu cynlluniau a rhwydweithiau gweithredu positif ar gyfer grwpiau sy'n cael eu tan-gynrychioli yn y Cynulliad. Defnyddiwyd cynllun Coleg y Gwasanaeth Sifil i hyrwyddo datblygiad gyrfaol staff sy'n ddu neu o leiafrif ethnig. Yn ogystal, mae nifer o gynlluniau cyflogi i wella amrywiaeth y gweithlu ar y gweill (cysgodi, hyfforddiant a secondiadau i Gynghorau Cydraddoldeb Hiliol). Yn ystod y flwyddyn, bydd effeithiolrwydd y cynlluniau yn cael ei adolygu ac rydym yn bwriadu ehangu'r cynllun i gynnwys pobl anabl.

- Cefnogi nifer o sefydliadau cydraddoldeb yn y sector gwirfoddol (Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Cynghrair Cenedlaethol Merched Cymru, Anabledd Cymru, Fforwm Cenedlaethol Lesbiaid, Hoywon a'r Deurywiolion), fel cyfryngau i'r Cynulliad ymgynghori â hwy. Mae cyllid ar gael am dair blynedd i feithrin galluoedd y sefydliadau hyn fel bod effeithiolrwydd yr ymgynghoriad yn gwella bob blwyddyn.

- Y cyfarfodydd chwarterol rhwng aelodau blaenllaw cymunedau'r bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ac uwch swyddogion y Cynulliad o dan fy nghadeiryddiaeth i. Mae'r rhain yn darparu cyngor ac arweiniad annibynnol ac yn gyfrwng i daflu syniadau ar gyfer mentrau newydd.

- Gwaith parhaus yr Uned Penodiadau Cyhoeddus i hyrwyddo amrywiaeth wrth benodi. Mae nifer o Fentrau Gweithredu Positif yn cael eu hystyried, gan gynnwys ymarferion maes a hyfforddiant penodol i aelodau'r panel dethol ar gydraddoldeb. Yn ogystal, mae'r Uned wedi cynnal gwaith i annog pobl o bob grwp sydd yn draddodiadol yn cael eu tan-gynrychioli i geisio am swyddi ar fyrddau ein cyrff cyhoeddus. Mae'r Uned bellach wedi cynhyrchu cynllun gweithredu i fynd â'r mentrau hyn yn eu blaen.

- Hyrwyddo cyfle cyfartal fel un o ofynion penodol y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (ESF). Mewn cydweithrediad â WEFO, mae hyfforddiant ar gydraddoldeb yn cael ei ddatblygu i sicrhau bod cydraddoldeb yn dod yn rhan o'r ESF.

- Datblygu Strategaeth Oes Wybodaeth i helpu creu cyfleoedd i bobl, ymhlith eraill, y rheini â namau corfforol neu synhwyraidd. Mae'r ymgynghoriad electronig sy'n cyrraedd llawer o bobl (yn allanol ac o fewn y Cynulliad), wedi gosod safon newydd ar gyfer ymgynghoriadau yn y dyfodol.
- Hyrwyddo'r angen i gymryd camau penodol at gydraddoldeb yng Nghynlluniau'r Is-adrannau. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo'n dda fel y gwelir yn y rhestr o

fentrau'r Is-adrannau yn *Atodiad B2.* Yn ystod y flwyddyn, bydd Cynlluniau'r Is-adrannau yn cael eu hategu gan Gynlluniau Gweithredu y Grwp.

**iii. Llywodraeth Well**

Fe wnaeth y Papur Gwyn ar Foderneiddio Llywodraeth a'r Cynlluniau Gweithredu dilynnol a luniwyd yn dilyn cyfarfod rhwng Penaethiaid Parhaol yr Adrannau yn Sunningdale ym 1999 bwysleisio bod angen ehangu amrywiaeth o fewn y Gwasanaeth Sifil. Gofynnwyd i bob Adran ffurfio Cynlluniau Gweithredu i ddangos sut roeddynt am fynd i'r afael ag amrywiaeth. Roedd y Papur Gwyn yn pwysleisio bod "the public service must be part of, not apart from, the society it serves", ac mae'r neges hon yn sylfaen i lwyddiant y Cynulliad. Fy ymateb i her y Papur Gwyn ar Foderneiddio Llywodraeth yw'r Fenter Rhoi Llywodraeth Well ar Waith yng Nghymru. Rwyf wedi cymryd cyfrifoldeb personol am y Fenter, sy'n cynnwys "Building Equality into all our Policies and Practices" fel un o'r saith thema**.** Golyga'r thema ein bod yn ceisio:

*"To ensure that the Assembly's policies actively endorse its commitment to equality and diversity and that the Assembly exercises its functions with due regard to the principle of equality of opportunity for all. To ensure that, as an employer, the Assembly finds and draws upon the best talent to meet its objectives".*

Y mentrau yr aethpwyd i'r afael â hwy yn ystod y flwyddyn i gefnogi'r amcan oedd:

- Cefnogi a chyd-noddi Seremoni Wobrwyo Amrywiaeth Hiliol yng Nghymru, a gynhaliwyd yn y Gyfnewidfa Lo yng Nghaerdydd. Roedd y digwyddiad hwn yn llwyddiant ysgubol ac yn un a gododd delwedd y Cynulliad yn y gymuned Ddu a Lleiafrif Ethnig yng Nghymru. Rydym yn ystyried sut gallwn adeiladu ar y llwyddiant.

- Cynlluniau maes, profiad gwaith a chysgodi gwaith arloesol a newydd, wedi'u hanelu at gymunedau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig. Mae'r cynlluniau bellach ar y gweill ac maent eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth. Yn ystod y flwyddyn, rydym yn bwriadu ehangu'r cynlluniau i grwpiau eraill sy'n cael eu tan-gynrychioli.

- Datblygwyd Strategaeth Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb a rhaglen o ddiwrnodau gorfodol i godi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ar gyfer holl staff y Cynulliad. Hefyd, fe wnaethom newid y rhaglen gynefino i sicrhau fod yr holl staff sy'n ymuno â'r Cynulliad yn ymwybodol o bolisi cyfle cyfartal y Cynulliad, eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Ein nod yw y bydd 85% o staff y Cynulliad wedi derbyn yr hyfforddiant hwn erbyn diwedd Mehefin 2002. Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys datblygu pecynnau hyfforddiant sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o faterion cydraddoldeb, rhai cyffredinol a modiwlau mwy penodol.

**1. Crynodeb**

Credaf fod yna dystiolaeth o'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn ein gwaith fel cyflogwr, lluniwr polisi a darparwr gwasanaethau. Gellir gweld hyn orau mewn 3 maes

allweddol:

a. **Llunio Polisi** - Mae'r rheini sydd ynghlwm â'r broses o ddatblygu polisi yn fwy ymwybodol o gydraddoldeb ac yn rhoi mwy o ystyriaeth iddo. Bydd angen i'r gwaith o ddod â chydraddoldeb yn rhan o'n polisïau barhau am beth amser, ond mae'r broses hon bellach yn mynd rhagddi'n llwyddiannus. Mae gwaith hefyd ar y gweill i ddatblygu erfyn polisi newydd a fydd yn helpu gyda'r broses o brif-ffrydio cydraddoldeb, ynghyd â chreu cronfa ddata o'r rheini y dylid ymgynghori â hwy i sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cymryd rhan lawn yn ein proses ymgynghori.

**b.** **Staffio** - Mae llawer o waith wedi cael ei wneud yn y maes hwn, yn enwedig gyda'r argymhellion yn yr adroddiad Codi Pob Llais. Bydd defnyddio'r trefniadau agored newydd ar gyfer recriwtio/dyrchafu ym Mand A (Cynorthwy-ydd Gweinyddol) a Band F (Gradd 7), yn dweud wrthym a ydym yn denu mwy o ymgeiswyr o grwpiau sy'n cael eu tan-gynrychioli. Hyd yn hyn, mae tystiolaeth yn awgrymu ein bod wedi ennill rhywfaint o dir. Er bod pethau'n gwella o ran penodiadau, mae gofyn gwneud gwaith pellach i wella eto a chodi ymwybyddiaeth y grwpiau sy'n cael eu tan-gynrychioli o'r cyfleoedd sy'n bodoli yn y Cynulliad a'n hymrwymiad i recriwtio pobl o'r grwpiau hyn. Hefyd, gwnaed newidiadau i'r trefniadau oriau hyblyg i heplu'r rheini sydd yn gofalu am bobl. Mae'r system rheoli perfformiad newydd hefyd wedi'i hanelu at leihau'r rhwystrau sy'n wynebu grwpiau sy'n cael eu tan-gynrychioli ac i ddarparu cyfrwng effeithiol i'w helpu i ddatblygu.

c. **Mynediad** - Mae set newydd o ganllawiau ar fynediad wedi cael ei lunio ac yn cael ei ddosbarthu o fewn y Cynulliad. Bydd yn helpu Is-adrannau i gynllunio eu hymgyrchoedd gwybodaeth ac ymgynghori a sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i iaith a fformat. Gellir gweld tystiolaeth o hyn yn y newidiadau i'n polisi ar hysbysebion swyddi, lle rydym bellach yn defnyddio ffont maint 14 ar gyfer y teitlau er mwyn helpu'r rheini sydd â nam ar eu golwg.

Credaf ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda'n system recriwtio a datblygu staff newydd. Mae'r cynnydd yn nifer y ceisiadau am sywddi gan bobl o grwpiau sy'n cael eu tan-gynrychioli yn profi nad yw ein hymdrechion yn ofer. Gallwn hefyd weld y data sydd angen i ni ei gasglu i'n galluogi i asesu a yw'n polisïau a'n gwasanaethau yn cwrdd ag anghenion holl gymunedau Cymru ac, os nad ydynt, pa feysydd sydd angen i ni fynd i'r afael â hwy. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod y flwyddyn.

Mae'n amlwg wrth edrych ar yr adroddiad bod staff y Cynulliad yn mynd i'r afael â chydraddoldeb, er bod lefel yr ymrwymiad yn amrywio. Er bod mwy o dystiolaeth bod cydraddoldeb yn cael ei brif-ffrydio, dros y flwyddyn nesaf bydd gofyn i ni sicrhau fod cydraddoldeb yn chwarae rhan amlycach ym mywyd y Cynulliad. Bydd codi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb a hyfforddiant yn ein helpu i sicrhau bod hyn yn digwydd.

**JON SHORTRIDGE**

Mehefin 2002

**Atodiad B1: Rôl, Swyddogaethau a Gwaith yr Uned Polisi Cydraddoldeb**

Rôl yr Uned Polisi Cydraddoldeb yw dwyn rhwymedigaethau'r Cynulliad i gydraddoldeb yn eu blaenau mewn ffordd gydlynus a chyson. Prif rôl yr Uned yw cynorthwyo'r Cynulliad i gyflawni'i rwymedigaethau statudol a'r amcanion o ran cydraddoldeb, sef y rheini a geir yn y Cynllun Strategol a'r rhaglen " Gwell Llywodraeth".

Rhennir prif amcanion yr Uned yn bedwar maes, sef:

- gweithredu fel catalydd ar gyfer newid, a hybu newid;
- darparu canolfan arbenigedd a chyngor ar arfer gorau;
- cynnal deialog â chyrff sy’n cynrychioli grwpiau lleiafrifol neu grwpiau o bobl dan anfantais;
- hwyluso a chynorthwyo gwaith cyfle cyfartal y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, Gweinidogion y Cabinet a'r Ysgrifennydd Parhaol.

Dyma fraslun o'r gwaith a wnaed gan yr Uned Polisi Cydraddoldeb ers Mehefin 2001 o dan benawdau penodol Hil, Rhyw, Anabledd, Hawliau Dynol, Hyfforddiant a'r Archwiliad Cydraddoldeb:

***HIL***

Ymgymerwyd â nifer o fentrau yn ystod y flwyddyn a aeth heibio i hyrwyddo arferion cydraddoldeb hiliol yn fewnol ac yn allanol, er mwyn rhoi arweiniad wrth helpu cyrff y sector cyhoeddus i wthio'r agenda cydraddoldeb hiliol yn ei blaen ledled Cymru. Ymysg enghreifftiau o'r cynlluniau hyn mae:

- Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, a daeth y ddyletswydd gyffredinol i rym ar 2 Ebrill 2001. Roedd hon yn gosod dyletswydd ar y Cynulliad i roi ystyriaeth briodol i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil ac i hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol yn yr holl waith y mae'r Cynulliad yn ymgymryd ag ef. Roedd y ddyletswydd benodol a ddaeth i rym ar 31 Mai 2002, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Hiliol a chadw golwg ar arferion cyflogi pobl ethnig, yn cryfhau'r ddyletswydd hon. Cyhoeddwyd Cod Ymarfer a Chanllawiau statudol y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ym mis Rhagfyr 2001.

- Dosbarthwyd manylion y Ddeddf i bob Is-adran a thynnwyd sylw at ei phrif ofynion. Yn yr un modd, dosbarthwyd y Cod Ymarfer drafft sydd wedi'i ddatblygu gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a oedd yn hysbysu pob Is-adran am y newidiadau y byddai angen i bob ran o'r Cynulliad eu gwneud i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd. Cafodd Gweithgor ei sefydlu i gyd-gysylltu'r gwaith o ddatblygu a rhoi Cynllun Cydraddoldeb Hiliol ar waith, a threfnwyd bod uwch reolwyr yn cael eu hyfforddi i'w gwneud yn fwy ymwybodol o'u cyfrifoldeb personol am sicrhau bod eu His-adrannau yn rhoi'r Ddeddf ar waith yn y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt.

Roedd cyflwyno Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) yn ymdrin â'r angen ar i gyrff y sector cyhoeddus rannu arfer da a helpu ei gilydd i sicrhau cydraddoldeb. Mewn partneriaeth â Chomisiwn Cydraddoldeb Hiliol Cymru, mae'r Cynulliad wedi sefydlu Bord Gron Sector Cyhoeddus Cymru ar Gydraddoldebau, dan gadeiryddiaeth Mrs Edwina Hart AC, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a'r Cymunedau. Prif swyddogion cyrff allweddol sector cyhoeddus Cymru yw aelodau'r Grwp ac maent yn trafod cydraddoldeb mewn cyd-destun ehangach, yn dosbarthu gwybodaeth ac yn rhannu arfer da. Bu'r Grwp yn effeithiol o ran helpu ei aelodau i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb ac mae wedi sefydlu gweithlu i gefnogi'i waith a datblygu cynlluniau penodol. Ein gobaith yw y bydd hyn yn hybu mwy o gydweithio.

- Fel rhan o argymhellion Adroddiad McKenzie ar hiliaeth gyfundrefnol o fewn y Cynulliad ('Codi Pob Llais'), cafodd y diffiniad o hiliaeth gyfundrefnol ei ddosbarthu i bob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (ASBP) ynghyd â chais iddynt fabwysiadu'r diffiniad a mynd ati i fynd i'r afael â'r broblem hon o fewn eu sefydliadau. At ei gilydd, cafodd hwn groeso gan y Cyrff a Noddir ac maent wedi ymrwymo i ddwyn y gwaith yn ei flaen.

- Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn parhau i gwrdd yn rheolaidd ag aelodau o gymunedau pobl dduon a lleifafrifoedd ethnig Cymru er mwyn trafod sut y gall y Cynulliad gael gweithlu sy'n fwy amrywiol. Maent yn trafod nifer eang o faterion, ac yn sgîl hynny, mae'r Cynulliad wedi ymgymryd â nifer o gynlluniau i sicrhau ei fod yn cyflogi pobl o gefndiroedd amrywiol. Er enghraifft, cafodd swyddog o gefndir ethnig ei secondio am ddwy flynedd i fod yn Uwch Was Sifil yn y Cynulliad.

- Mae cynyddu nifer y bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sy'n gweithio yn y Cynulliad i adlewyrchu'r boblogaeth leol yn un o'r amcanion y mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i'w gyflawni. Yn dilyn trafodaethau rhwng yr Ysgrifennydd Parhaol ac aelodau o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, cafodd dau gynllun eu datblygu i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd gwaith sy'n bodoli yn y Cynulliad. Cafodd cynllun cysgodi pobl wrth eu gwaith a chynllun lleoliadau hyfforddi yn benodol er lles y cymunedau hyn eu lansio ym mis Ionawr 2002.

- Er mwyn mynd â chydraddoldeb hiliol yn ei flaen a chefnogi'r gwaith y mae'r Cynghorau Cydraddoldeb Hiliol yn ei wneud yn lleol, mae staff Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd yn trefnu i aelod o staff fynd ar secondiad i bob Cyngor Cydraddoldeb Hiliol. Bydd Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn elwa o'r cynllun hwn pan fydd staff yn dychwelyd a chanddynt wybodaeth am gymunedau lleiafrifoedd ethnig, a phrofiad o gydweithio â hwy.

- Yn sgîl digwyddiadau 11 Medi, bu'r Ysgrifennydd Parhaol yn cynnal cyfres o gyfarfodydd gydag arweinwyr gwleidyddol a chrefyddol ac aelodau o gymunedau lleiafrifoedd ethnig i drafod effaith y digwyddiad hwn ar gysylltiadau cymunedol a hiliol yng Nghymru. Bu'r cynnydd yn nifer y digwyddiadau hiliol a'r ffordd y mae'r cyfryngau'n yn ymdrin â'r broblem hon yn destun pryder. Cynhaliwyd cyfarfod ar wahân gyda menywod Mwslemaidd i sicrhau bod eu hanghenion a rhai eu plant yn cael eu diwallu. Cytunwyd ar nifer o gamau yn y cyfarfod, gan

gynnwys cael mwy o gyswllt â'r Heddlu, i sicrhau bod y Cynulliad yn cadw golwg ar y sefyllfa a yn rhoi cefnogaeth a chymorth i'r rheini fel y bo angen. Cyfarfu'r Ysgrifennydd Parhaol hefyd â chynrychiolwyr o Wasanaeth Erlyn y Goron ym mis Mawrth i drafod cydraddoldeb, gan gynnwys yr arfer da y mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi'i sefydlu, ynghyd â dulliau effeithiol o'i roi ar waith a'i fonitro.

- Er nad yw hwn yn fater sydd wedi'i ddatganoli, mae'r Cynulliad wedi cymryd diddordeb brwd ym mhrofiadau ceisiwyr lloches sydd wedi cael eu hanfon i fyw yng Nghymru. Bu'r Cynulliad yn cadw mewn cysylltiad agos â Chonsortia Caerdydd, Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru Gyfan a'r Gwasanaeth Cynorthwyo Ceiswyr Lloches Cenedlaethol i gadw golwg gyffredinol ar y sefyllfa a chael yr holl wybodaeth ddiweddaraf mewn maes sy'n newid yn gyflym. Mae hefyd wrthi'n ystyried y Papur Gwyn cyfredol, sy'n cynnig newid polisïau'n ymwneud â cheiswyr lloches, mewnfudo a chenedligrwydd, o ran y ffordd y gallai effeithio ar Gymru.

- Fel rhan o'u cefnogaeth i geiswyr lloches yng Nghymru, cytunodd y Cynulliad a'r Swyddfa Gartref i gynnal adolygiad o Gyngor Ffoaduriaid Cymru er mwyn nodi meysydd y gellir gwella arnynt. Gwnaed nifer o argymhellion o ran rheoli'r Cyngor ac mae'r Cynylliad wedi ariannu swyddog ar secondiad tymor byr i roi'r argymhellion hynny ar waith er mwyn sicrhau bod ceiswyr lloches yng Nghymru yn cael cymorth priodol.

- Er mwyn dathlu Mis Hanes Pobl Dduon ym mis Hydref 2001, noddwyd y Gwobrau Amrywiaeth Hiliol cyntaf i'w cynnal yng Nghymru gan Lywodraeth y Cynulliad, ac fe'u trefnwyd gan Rwydweithiau Sector Gwirfoddol Pobl Dduon Cymru. Cafodd y Gwobrau eu trefnu i ddathlu a rhoi amlygrwydd i'r cyfraniad y mae pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn ei wneud at y gymdeithas yng Nghymru, ynghyd â gwobrwyo cyrff sydd wedi llwyddo i hybu amrywiaeth yng Nghymru. Ein gobaith yw y bydd y digwyddiad hwn yn cael ei gynnal bob blwyddyn, gan ategu rôl y Cynulliad o ran annog y sector cyhoeddus i ystyried materion cydraddoldeb hiliol fel rhai prif ffrwd.

- Mae'r Uned Polisi Cydraddoldeb hefyd yn parhau i roi cyngor, cefnogaeth a chymorth yn fewnol er mwyn sicrhau bod strategaethau, polisïau ac arferion yn diwallu anghenion cymunedau lleiafrifoedd ethnig.

**Y Flwyddyn i Ddod**

Bydd y gwaith sy'n cael ei wneud ym maes hil yn parhau eleni. Bydd rhoi Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 ar waith yn parhau i fod yn un o'r meysydd allweddol, ynghyd â datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol ymhellach. Bydd pob Grwp yn y Cynulliad yn datblygu cynllun gweithredu fel ffordd o sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd.

Yn ystod y flwyddyn i ddod, bydd yr Uned Cydraddoldeb Polisi, fel rhan o Well Llywodraeth, hefyd yn cydweithio â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA) i ymgymryd â phrosiect gwaith maes fydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth

ymysg cymdeithasau lleiafrifoedd ethnig cymunedol am rôl a chylch gorchwyl y Cynulliad, ac o'u hannog i ddylanwadu ar bolisi drwy gyfrwng AWEMA.

**Rhywedd a Rhywioldeb**

Ymgymerwyd â nifer o fentrau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i hyrwyddo pobl amrywiol eu rhywedd a'u rhywioldeb yn fewnol ac yn allanol. Ymysg enghreifftiau o'r rhain mae:

- Helpu i sefydlu Fforwm Lesbiaid, Hoywon a Phobl Ddeurywiol Cymru. Dyrannwyd £25,000 o'r gronfa 'Hyrwyddo Cydraddoldeb' i'r grwp a fydd yn ei helpu i lunio rhestr o'r rheini y dylai'r Cynulliad eu holi wrth ymgynghori ar bolisi. Lansiwyd y Fforwm yn swyddogol ar noson y 30 Awst 2001 yn Neuadd y Sir ar ôl cynhadledd Homoffobia a Ieuenctid a gynhaliwyd yno yn ystod y dydd. Angela Mason (Stonewall), John Sam Jones a Gloria Jenkins (cydgadeiryddion y Fforwm) a Mrs Edwina Hart AC oedd y prif siaradwyr yn y lansiad.

- Ymweliad gan Dr Liisa Horelli, sef arbenigwraig ar brif-ffrydio o'r Ffindir, sy'n ymdrin yn benodol â Datblygu Economaidd Rhanbarthol. Cyd-drefnwyd hyn gan staff Llywodraeth y Cynulliad a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal. Siaradodd Dr Horelli ag uwch reolwyr am brif-ffrydio cydraddoldeb.

- Cyfarfod dros Frecwast i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Merched ar 8 Mawrth 2002.

- Cyfrannu at y cyfarfodydd rhwng yr Adran Bersonèl a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal i drafod yr archwiliad o gyflogau'r Cynulliad ym mis Mawrth 2001, ac aelodaeth Cyd-weithgor y Cynulliad ar Gyflogau Cyfartal ym mis Hydref 2001. Roedd hyn yn cynnwys lansio'r strategaeth a datblygu strategaeth at y dyfodol ar gyfer yr ymgyrch cyflogau cyfartal.

- Cynhyrchu papur ategol ar faterion blaenoriaeth i ferched ar gyfer y Strategaeth Gofal Plant. Gwnaeth staff y Cynulliad hefyd ehangu cwmpas papur ymgynghori yr oedd y Comisiynydd Plant yn ei ddosbarthu drwy gyfrwng yr Uned Plant a Theuluoedd i sicrhau ei fod yn cyrraedd cynulleidfa ehangach ym mis Mai 2001, gan gyfrannu at adolygiad y Cynulliad o adroddiadau blynyddol staff ym mis Medi 2001 ac ymdrin â chydraddoldeb.

- Ym mis Ionawr 2002, bu staff y Llywodraeth yn cyfrannu at yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Bartneriaeth Sifil, wedi'i hwyluso gan gydweithwyr Tîm Rhywedd a Rhywioldeb yn Swyddfa'r Cabinet.

- Bu staff y Cynulliad yn cynnal ac yn ehangu eu cysylltiadau â chyrff y tu allan i'r Cynulliad. Buont yn bresennol mewn nifer o gynadleddau, seminarau a chyfarfodydd yn ymwneud â chydraddoldeb, gan gynnwys Cynhadledd Flynyddol y Comisiwn Cyfle Cyfartal, diwrnod ymgynghorol ar Ferched a Hiliaeth dan nawdd grwp merched y Bah'ai (a fu'n llunio datganiad i Gynhadledd Fydeang y CU ar Hiliaeth), MEWN Cymru a chyfarfodydd cyffredinol blynyddol AWETU,

Gwobrau Amrywiaeth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a Chynhadledd Flynyddol Rhwydwaith Ewropeaidd Menywod Cymru.

- Creu perthynas â grwpiau newydd megis Transgender Wales a'u hychwanegu at y rheini yr ymgynghorir â hwy i sicrhau bod llais gan bobl drawsrywiol yn y Cynulliad.

**Y flwyddyn i ddod**

Bydd llawer o'r gwaith sy'n cael ei wneud ym maes rhywedd a rhywioldeb yn parhau. Hefyd, ymysg y camau gweithredu penodol ar gyfer y flwyddyn i ddod bydd:

Datblygu'r ymgyrch 'Cau'r Bwlch Cyflogau'. Gwneir hyn drwy:

- Fynd ag arddangosfa symudol i fannau penodol
- Creu CD ROM y gall cyflogwyr eu defnyddio
- Cynnal seminarau i ymdrin â'r materion yn fanylach

Anfonir holiaduron dilynol i'r rheini a fu'n bresennol yn nigwyddiad Diwrnod y Merched ym mis Mawrth 2002. Defnyddir eu hatebion i gynllunio'r digwyddiad i'w gynnal ym mis Mawrth 2003.

Gwneir dadansoddiad a chaiff camau eu datblygu yn sgîl yr holiaduron gwaith maes fydd wedi'u hanfon at gyrff perthnasol sy'n ymwneud â rhywedd.

Parhau i ddatblygu a chefnogi Fforwm LHD Cymru

**Anabledd**

Cynhaliwyd nifer o fentrau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl anabl yn fewnol ac yn allanol. Ymysg enghreifftiau o'r cynlluniau hyn mae:

- Young View - cyflwynwyd papur i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal gan ddirprwyaeth o Young View. Grwp o bobl â nam ar eu golwg yw Young View, sy'n cael eu noddi gan Gyngor Cymru i'r Deillion. Roedd y papur yn ymdrin â'r anawsterau sy'n wynebu deillion ifanc a phobl ifanc â nam ar eu golwg a'r rhwystrau cymdeithasol i waith, addysg a gweithgareddau hamdden.

- Mae'r Uned Polisi Cydraddoldeb wedi cyfrannu nifer o ddogfennau drafft gan gynnwys 'Canllawiau ar Fynediad i Adeiladau Hanesyddol' gan CADW a Phapur ar y Celfyddydau a Diwylliant, sef 'Strategaeth Ddiwylliant i Gymru', yn ogystal ag ateb ymholiadau a cheisiadau am gyngor gan bob adran o'r Cynulliad ar gydraddoldeb i bobl anabl.

- Cynhyrchu Canllawiau Arfer Da i Gynhyrchu Gwybodaeth Hygyrch, sydd bellach yn barod i'w cyhoeddi a'u dosbarthu. Mae'r canllawiau yn rhoi cyngor ac arweiniad ar gynhyrchu gwybodaeth hygyrch i sicrhau bod pobl anabl yn gallu cael gwybodaeth a gynhyrchir gan Lywodraeth y Cynulliad yn ddi-drafferth a bod y Cynulliad yn enghraifft o arfer da. Mae Cyngor Cymru i'r Deillion ac RNIB Cymru wedi rhoi sêl eu bendith ar yr arfer da a nodir yn y canllawiau hyn ac

mae'n cyd-fynd â'r canllawiau y mae'r Swyddfa Hysbysrwydd Ganolog yn eu cyhoeddi ar gyfer Adrannau eraill y Llywodraeth.

- Cyd-gysylltu digwyddiad i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl. Mae Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl yn dathlu ac yn cydnabod profiad a galluoedd pobl ag anableddau. Ar 3 Rhagfyr 2001 trefnwyd dathlu'r diwrnod drwy gynnal cynhadledd i bobl ifanc anabl mewn cydweithrediad â phartneriaid y tu allan i'r Cynulliad. Diben y gynhadledd i'r ifanc, a gynhaliwyd ar ôl tair cynhadledd ranbarthol, oedd ei gwneud yn gyfrwng i bobl ifanc anabl dynnu sylw gwleidyddion ac uwch swyddogion yn y Cynulliad at faterion sydd o bwys mawr i bobl ifanc anabl yng Nghymru. Bu hefyd yn fodd i ddangos bod Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i Gymru gynhwysol a'i bod yn cydnabod y Diwrnod Rhyngwladol. Sesiwn hawl i holi a gynhaliwyd yn Siambr y Cynulliad oedd canolbwynt y gynhadledd ar 3 Rhagfyr. Atebodd y Prif Weinidog a'r Gwinidog Cyllid gwestiynau gan bobl ifanc, a'r Llywydd oedd yn y gadair.

**Y flwyddyn i ddod**

Bydd llawer o'r gwaith sy'n cael ei wneud ym maes anabledd yn mynd rhagddo.

Bydd y materion a godwyd gan y bobl ifanc anabl yn ystod y digwyddiad ar 3 Rhagfyr yn cael eu hystyried ymhellach.

- Bydd yr Uned Polisi Cydraddoldeb yn gweithio mewn partneriaeth â'r Comisiwn Hawliau i'r Anabl (DRC) i gynnal seminarau ledled Cymru ar gyfer Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, Cyrff Cyhoeddus a darparwyr gwasanaethau er mwyn dechrau rhoi Rhan III o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd ar waith. O fis Hydref 2004 ymlaen bydd yn rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ddileu'r rhwystrau sy'n eu gwneud yn amhosibl neu'n afresymol o anodd i bobl anabl ddefnyddio gwasanaethau. Anogir darparwyr gwasanaethau yng Nghodau Arfer y Comisiwn Hawliau Anabledd i gynnal gwaith adeiladu ac atgyweirio er mwyn rhoi mynediad i'r anabl. Bydd y seminarau yn hybu'r gwaith hwn ymhellach ac yn rhoi cyngor ac arweiniad ar arfer da a darpariaethau'r Ddeddf.

- Law yn llaw â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, TUC Cymru a'r CBI, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio i annog y Cyrff a Noddir, Cyrff Cyhoeddus a'r Diwydiant Gwasanaethu i fod yn fwy ymwybodol o iechyd a diogelwch. Bydd hyn yn cynnwys ymchwilio i arfer da ym maes cadw ac adfer pobl yn y gweithle i annog cyflogwyr i gyflogi pobl anabl.

- Cafodd 2003 ei dynodi'n Flwyddyn Ewropeaidd Pobl Anabl, a bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio ag adrannau Llywodraeth y DU, y gweinyddiaethau datganoledig eraill, ynghyd â chyrff cyhoeddus a chyrff sy'n ymwneud ag anabledd yng Nghymru, i ddatblygu rhaglen lwyddiannus o ddigwyddiadau a mentrau i gefnogi'r Flwyddyn. Un o'r prif ddigwyddiadau fydd Cyngres Ryngwladol o Bobl Ifanc Anabl, sydd eisoes yn cael ei chynllunio. Bydd hon yn dod â'r un nifer o bobl ifanc o Gymru ag o wledydd Ewropeaidd eraill (a rhai gwledydd sy'n datblygu, gobeithio) at ei gilydd er mwyn iddynt allu cyfnewid syniadau a phrofiadau bywyd.

**Y Ddeddf Hawliau Dynol**

- Ers rhoi'r Ddeddf Hawliau Dynol ar waith yn llawn ym mis Hydref 2000, bu'r Cynulliad yn cynnal rhaglen eang i hyfforddi ei staff. Mae pob is-adran yn y Cynulliad wedi cael sesiynau codi ymwybyddiaeth am y Ddeddf, ac mae ail haen o seminarau trylwyr ar y gweill ar hyn o bryd ar gyfer staff sydd angen neu sydd am wybod mwy, gan gymryd datblygiadau diweddar mewn cyfraith achosion i ystyriaeth. Timau cyfraith OCG sy'n darparu rhai o'r sesiynau hyn, tra bod darlithwyr o Ysgol y Gyfraith Caerdydd yn darparu rhai eraill. Mae Uned Polisi Cydraddoldeb (mewn cydweithrediad â Thîm Hawliau Dynol a Chyfansoddiadol OCG) wrthi'n datblygu modiwl byr ar hawliau dynol fel rhan o'r hyfforddiant yn rhaglen gynefino'r Cynulliad, er mwyn gwneud staff newydd yn ymwybodol o rwymedigaethau'r sefydliad o ran hawliau dynol (yn benodol Adran 107 o Ddeddf Llywodraeth Cymru).

- Cynhaliodd Yr Uned Polisi Cydraddoldeb arolwg o awdurdodau lleol a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ym mis Mehefin y llynedd i weld pa mor ymwybodol o gydraddoldeb y mae'r cyrff cyhoeddus hyn. Mae pob awdurdod cyhoeddus yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Ddeddf, ac am sicrhau bod ei staff yn cael hyfforddiant digonol. Fodd bynnag, roedd yr arolwg yn dangos bod yr awdurdodau yn awyddus i gael gwybodaeth fwy hygyrch am y Ddeddf, ac yn benodol am effaith cyfraith achosion. Mewn ymateb i hyn, mae'r Uned Polisi Cydraddoldeb ar hyn o bryd wrthi'n trefnu dwy Sioe deithiol i'w cynnal yn yr haf, sef un yn y Gogledd a'r llall yn y De. Mae'r rhain yn cael eu trefnu mewn cydweithrediad ag Uned Hawliau Dynol Adran yr Arglwydd Ganghellor, a byddant wedi'u hanelu at awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill a grwpiau gwirfoddol. Y gobaith yw y byddant yn atgoffa cyrff cyhoeddus yng Nghymru o'u rhwymedigaethau o dan y Ddeddf, ac yn eu rhoi ar ben ffordd o ran cael mwy o wybodaeth a chyngor.

**Cydraddoldeb yn Ewrop**

Bu'r Uned Polisi Cydraddoldeb yn cydweithio'n agos â Changen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Adran Diwydiant a Masnach a chyda chynrychiolwyr o adrannau eraill y llywodraeth sy'n aelodau o'r Grwp Llywio Cyfarwyddebau Cyflogaeth. Ei nod fydd sicrhau bod safbwyntiau Cymreig yn cael eu hystyried wrth roi Cyfarwyddebau'r UE ar Hil a Chyflogaeth ar waith, yn benodol mewn perthynas â'r tair haen newydd, sef rhywioldeb, crefydd ac oed.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cychwynnol ar gynigion Llywodraeth y DU rhwng Rhagfyr 2001 a Mawrth 2002, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, daeth tîm gweithredu'r Adran Diwydiant a Masnach i Gymru ddwywaith, i annerch Bord Gron Sector Cyhoeddus Cymru ar Gydraddoldebau a Phwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad. Bu'r Uned Polisi Cydraddoldeb yn trafod cynigion y Llywodraeth â'r tri Chomisiwn Cydraddoldeb yng Nghymru, Fforwm LHD Cymru ac eraill, a defnyddiwyd y trafodaethau hyn i lywio ymateb y Pwyllgor Cydraddoldeb i ddogfen ymgynghori'r Adran Diwydiant a Masnach.

Yn ystod 2002/2003, bydd yr Uned Polisi Cydraddoldeb yn parhau i hwyluso'r gwaith o ymgynghori ar raglen weithredu Llywodraeth y DU, ac i ddatblygu strategaeth i

helpu cyflogwyr Cymru i'w rhoi ar waith, yn benodol yr elfennau'n ymwneud â rhywioldeb a chrefydd y mae'n rhaid eu rhoi ar waith erbyn Rhagfyr 2002. Byddwn yn ymgymryd â hyn mewn partneriaeth â'r Is-adran Polisi Economaidd, y Cyngor Partneriaeth Busnes, y Comisiynau Cydraddoldeb a charfanau perthnasol eraill.

**Hyfforddiant**

Yn sgîl cyhoeddi'r Strategaeth Hyfforddiant Cydraddoldeb, rydym wrthi ar hyn o bryd yn cynnal sesiynau hyfforddi sylfaenol gorfodol i wneud holl staff y Cynulliad yn ymwybodol o gydraddoldeb, ynghyd â chwrs cynefino diwygiedig sy'n cynnwys modiwl ymwybyddiaeth o gydraddoldeb. Hefyd, cynhaliwyd hyfforddiant cydraddoldeb ar gyfer y rheini sy'n cymryd rhan yn y prosesau recriwtio newydd a chynllun peilot i hyfforddi aelodau o fyrddau Cyrff a Noddir. Y bwriad yn ystod y flwyddyn i ddod yw cynnal dadansoddiad o'r angen am hyfforddiant cydraddoldeb ar draws y Cynulliad a datblygu amrywiaeth o becynnau hyfforddi er mwyn ymateb i'r anghenion hyfforddi a nodwyd.

**Archwiliad o Gydraddoldeb**

Mae'r trydydd archwiliad o gydraddoldeb yn dangos y cynnydd a wnaed, hynny trwy'r ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd cydraddoldeb, yr ymrwymiad cryf (yn wleidyddol ac yn weinyddol) i fynd â'r materion hyn yn eu blaenau, a'r cysylltiad agosach â'r gymuned ehangach (o ran ymgynghori ffurfiol ac o ran eu cael i gyfrannu'n gynt i'r broses o ddatblygu polisi). Yn ystod y flwyddyn i ddod, byddwn ni, ynghyd â'r Comisiwn Hawliau Anabledd, y Comisiwn Cyfle Cyfartal a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, yn cynnal adolygiad trwyadl o'r broses archwilio i sicrhau eu bod yn para i fod yn llym, ac i fireinio a datblygu'r fethodoleg lle y bo angen. I grynhoi, yr hyn y mae'r archwiliad yn ei ddangos yw bod camau'n cael eu cymryd ond bod ffordd bell i fynd cyn y bydd arferion busnes pob dydd yn integreiddio cydraddoldeb a'u rhoi yn y brif ffrwd. Fodd bynnag, mae'r archwiliad wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr at fesur cynnydd. Mae'r crynodeb canlynol sy'n nodi'r cynnydd yn erbyn y meini prawf y mae'r archwiliad yn eu defnyddio yn brawf o hyn:

- **Amcanion Busnes** –.Gwnaed rhywfaint o gynnydd yn y maes hwn, ond mae llawer o gynlluniau busnes yn dal i beidio â defnyddio amcanion CAMPUS ar gyfer cydraddoldeb. Gall hyn fod oherwydd sawl rheswm - gall natur gwaith adran arbennig ei gwneud yn anymarferol iddi bennu targedi penodol; efallai na roddwyd digon o ystyriaeth i'r ffordd y mae cydraddoldeb yn ffitio i waith yr is-adran; neu efallai ei fod eisoes wedi'i brif-ffrydio yn y maes gwaith neu wasanaeth. Mae llawer yn dal i'w chael hi'n anodd pennu amcanion penodol mewn perthynas â hil, rhyw ac anabledd. Efallai y bydd hyfforddiant codi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb i'r holl staff a'r hyfforddiant ar wahân i Swyddogion Uwch y Gwasanaeth Sifil yn gymorth yn hyn o beth. Dylai'r trefniadau newydd ar gyfer rheoli perfformiad Uwch Swyddogion y Gwasanaeth Sifil â'u hamcan gorfodol o ran amrywiaeth fod yn erfyn grymus wrth hyrwyddo cydraddoldeb ymarferol ar lefel uwch.

- **Ymrwymiad o'r Brig** – Mae yna dystiolaeth gadarn fod y Cabinet ac Uwch Swyddogion wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ym mhob agwedd ar ein

gwaith. Er fod yna engreifftiau ymarferol i'w gweld sy'n dangos yr ymrwymiad hwn, nid yw pawb yn y Cynulliad yn eu harddel.

- **Monitro a Newid** – At ei gilydd, ceir systemau monitro sy'n effeithiol, ond mae'r diffyg amcanion cydraddoldeb penodol yn cyfyngu ar allu'r systemau hyn i hyrwyddo cydraddoldeb.

- **Arweiniad a Hyfforddiant** – Mae gennym lawer i'w wneud eto o ran cael cyrff cydraddoldeb i gyfrannu at baratoi ein canllawiau ac i sicrhau bod y problemau hyn yn cael eu nodi lle y bo'n briodol. Yn sgîl llunio ein Strategaeth Hyfforddiant Cydraddoldeb, arfaethwn y bydd holl staff presennol y Cynulliad wedi cwblhau cwrs ymwybyddiaeth sylfaenol gorfodol erbyn diwedd Mehefin 2002. Yn yr un modd, mae'r rhaglen gynefino ddiwygiedig yn cynnwys adran ar gydraddoldeb i wneud staff newydd yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau ac o bolisi cydraddoldeb y Cynulliad Cenedlaethol, yn ogystal â chyflwyno staff i faterion sy'n ymwneud â Hawliau Dynol.
.
- **Ymgynghori a Chyfathrebu** – Ceir tystiolaeth glir bod pobl yn fwyfwy ymwybodol o'r angen i sicrhau bod cyrff cydraddoldeb a grwpiau na chânt eu cynrychioli'n ddigonol yn cymryd rhan yn ein hymgynghoriadau, ac i raddau llai, o'r angen i'w cynnwys yn ystod y cyfnod cynllunio polisi. Yn yr un modd, mae'r arian rydym wedi'i ddarparu i rai cyrff cydraddoldeb gwirfoddol o bwys yn dechrau bod yn gyfrwng i'r ddwy ochr gyfnewid gwybodaeth. Yr hyn sydd ei angen bellach yw datblygu dull systematig o sbarduno cyrff cydraddoldeb a chymunedau sy'n cael eu tangynrychioli i gyfranogi. Lle mae hyn wedi digwydd, ceir tystiolaeth glir o werth.

Nid oes Cyfieithiad ar gyfer Atodiad C
Cyfeirwch at y fersiwn Saesneg os gwelwch yn dda